Sylwadau HMI o Heddlu De Cymru

Rwyf yn fodlon iawn ar berfformiad cyffredinol Heddlu De Cymru.

Mae Heddlu De Cymru'n dda o ran atal troseddu a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae swyddogion cymdogaeth yn ymgysylltu'n dda â phobl leol ac mae ganddynt wybodaeth drwyadl o'u problemau a'u pryderon.

Rwyf yn fodlon iawn ar y gwelliannau mae Heddlu De Cymru wedi'u gwneud o ran y ffordd mae'n amddiffyn pobl hyglwyf rhag niwed a sut mae'n cefnogi dioddefwyr. Erbyn hyn mae gan y llu ddealltwriaeth dda o natur a graddfa hyglwyfder ymhlith pobl yn Ne Cymru. Mae wedi hyfforddi staff i nodi dioddefwyr mynych a hyglwyf pan ydynt yn cysylltu â'r llu am y tro cyntaf, ac mae hyn yn golygu bod y bobl fwyaf hyglwyf yn derbyn ymateb priodol.

Mae Heddlu De Cymru'n dda o ran ymchwilio i droseddau ac mae'n cadw'r dioddefwr wrth ganol ei ymchwiliadau. Hefyd mae gan y llu drefniadau effeithiol i fynd ar ôl troseddwyr a lleihau aildroseddu.

Rwyf wedi cael sicrwydd bod Heddlu De Cymru'n dda o ran mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Mae'r llu'n cynnal asesiadau manwl o grwpiau troseddu trefnedig, y gellid ei wella ymhellach trwy gynnwys data gan sefydliadau partner. Mae swyddogion lleol yn ymwybodol o'r rhai hynny sy'n ymwneud â throseddoldeb trefnedig yn eu hardal ac maent yn ymgysylltu'n llawn â gweithgareddau tarfu'r llu. Mae gan y llu nifer o fentrau i rwystro pobl ifanc rhag dechrau ymgysylltu â throseddu difrifol a threfnedig

Rwyf yn llawn edmygedd am y ddealltwriaeth sydd gan Heddlu De Cymru o'r galwadau cyfredol am ei wasanaeth, gan gynnwys galwadau cudd bondigrybwyll megis troseddu ar y rhyngrwyd. Mae'r llu'n defnyddio'r ddealltwriaeth hon i lywio adleoliad ei adnoddau, gan gynnwys y rhai hynny i atal galwadau rhagweledig. Hefyd, mae'r llu wedi gweithio gyda sefydliadau partner i wella'r broses o lwybro ceisiadau am wasanaethau i'r sefydliad mwyaf priodol.

Mae gan y llu systemau da i ddeall galluoedd ei weithlu, sy'n ei alluogi i gydweddu sgiliau gweithredol â galwadau cyfredol. Mae'n deall yr wybodaeth a'r sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol ac mae ganddo gynlluniau i ddatblygu'r rhain.

Rwyf yn nodi bod gan y llu gynlluniau buddsoddi ar gyfer cyflawni mwy o effeithlonrwydd o ran darparu ei wasanaethau. Bydd y llu'n ymwybodol ei fod yn

wynebu diffyg a allai fod yn sylweddol yn ei gyllideb y flwyddyn nesaf ac rwyf yn hyderus y bydd yn rhoi trefniadau wrth gefn effeithiol yn eu lle.

Mae'r llu'n ceisio adborth gan bobl De Cymru, gan gynnwys y rhai hynny sydd â llai o hyder yn yr heddlu, ac mae'n defnyddio'r adborth hwn i wella ei arferion.

Rwyf yn fodlon bod gweledigaeth a gwerthoedd Heddlu De Cymru'n glir ac yn cael eu deall yn dda gan y gweithlu. Mae'r llu'n dda o ran cynnal ymddygiad moesegol a chyfreithlon yn ei weithlu, ac mae ei broses fetio'n cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol.

Mae'r llu'n cefnogi lles corfforol a meddyliol staff a swyddogion trwy ei dîm iechyd galwedigaethol. Fodd bynnag, mae swyddogion wedi mynegi barnau cymysg ynghylch i ba raddau y cynhwysir y gweithlu yn y broses o wneud penderfyniadau, ac ar hyn o bryd nid oes gan y llu fecanwaith cyson (megis arolwg staff) ar gyfer deall y problemau mae'r gweithlu'n eu gweld fel y rhai sy'n cael yr effaith fwyaf ar sut maent yn cael eu trin.

I grynhoi, mae'r llu'n darparu lefel dda o wasanaeth i bobl De Cymru. Rwyf yn canmol y llu am gynnal ei berfformiad ers fy asesiad blaenorol.

Cyd-destun

Mae Heddlu De Cymru'n darparu gwasanaethau plismona i ardaloedd Gorllewin, De a Chanol Morgannwg. Mae gan Dde Cymru lefel uchel o dlodi, er bod rhai ardaloedd mwy cefnog. Mae ardal y llu'n gartref i oddeutu 1.3 miliwn o bobl sy'n byw'n bennaf yn ninasoedd Caerdydd ac Abertawe heblaw am drefi llai.

Cynyddir y boblogaeth breswyl gan fyfyrwyr prifysgol a'r niferoedd uchel sy'n ymweld â, yn cymdeithasu yn, yn cymudo i, neu'n teithio trwy'r ardal bob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafnidiaeth yn cynnwys 115 o filltiroedd o draffyrdd a chefnffyrdd, gorsafoedd rheilffordd pwysig, meysydd awyr a phorthladdoedd môr.

Mae'r gyfran o ardaloedd yn Ne Cymru y rhagwelir (ar sail dadansoddiad economaidd a demograffig manwl) y byddant yn cyflwyno her uchel iawn i'r heddlu'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar y cyfan nodweddir yr ardaloedd mwyaf heriol gan grynhoad uchel o bobl sy'n byw, gweithio, cymdeithasu, neu deithio yn yr ardal.

Mae nodweddion sy'n achosi a/neu'n awgrymu crynhoad o bobl yn cynnwys y nifer o safleoedd masnachol, gan gynnwys safleoedd trwyddedig a safleoedd bwyd cyflym, cludiant cyhoeddus, ac amddifadedd cymdeithasol. Mewn rhai ardaloedd, cyfunir y nodweddion hyn. Nid yw ardal y llu'n fawr, o gymharu â lluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr; fodd bynnag mae'n cymryd amser cymharol hir i deithio ar draws yr ardal ar y ffordd, sy'n cynyddu'r anhawster ynghylch darparu gwasanaethau heddlu.

Trefniadau gweithio

Mae Heddlu De Cymru'n cydweithredu gyda Heddlu Gwent, gan gynnwys platfform data symudol ac uned ymchwilio wyddonol a rennir, cyflenwi trefn strategol a gwasanaethau cyfreithiol a rennir, heblaw am systemau technoleg a gaffaelir ar y cyd.

Mae'r llu'n gweithio fel rhan o uned wrthderfysgaeth Cymru gyfan ac mae ganddo dîm arfau tanio ar y cyd gyda Heddlu Gwent a Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r cydweithrediad Ystadau Plismona Cymru'n paratoi opsiynau ar gyfer gwasanaeth ystadau ar y cyd ar gyfer plismona yng Nghymru, er mwyn lleihau costau, gwella cadernid a gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth.

Yn y flwyddyn o'n blaen, bydd gen i ddiddordeb i weld sut y bydd Heddlu De Cymru'n ymateb i'r asesiad hwn ac i'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd gan HMIC llynedd.

Bydd gen i ddiddordeb arbennig i weld:

- sut y bydd y llu'n mynd i'r afael â'r diffyg a ragwelir yn ei gyllideb;
- sut y bydd y llu'n gwella ei ddealltwriaeth o'r problemau sy'n peri'r pryder mwyaf i'w weithlu.